

# Casgliadau Newydd: Cewynnau Untro a Gwastraff Anymataliaeth

O'r 2il o Fedi 2019

**O fis Medi 2019, bydd Cyngor Sir Benfro yn cyflwyno casgliad gwastraff newydd i'r rhai sy'n tanysgrifio, ar gyfer cewynnau untro a nwyddau hylendid amsugol (absorbent hygiene products/AHP) eraill fel gwastraff nwyddau anymataliaeth.**

Os yw rhywun yn eich cartref chi'n defnyddio cewynnau untro neu AHP eraill, gallwch gofrestru i gael eu casglu ar wahân i'ch gwastraff ac ailgylchu arall.

## Pam?

Rydym yn taflu dros 3 biliwn o gewynnau yn y Deyrnas Unedig bob blwyddyn. Mae cewyn untro yn cymryd 500 mlynedd i bydro.


Mae casglu cewynnau a gwastraff anymataliaeth ar wahân yn golygu y gellir eu hailgylchu, gan adael mwy o le i chi yn eich bag gweddilliol ar gyfer gwastraff na ellir ei ailgylchu.

## Sut rydw i'n cofrestru?

I gofrestru ewch i'r wefan **[www.sir-benfro.gov.uk/fynghyfrif](http://www.sir-benfro.gov.uk/fynghyfrif)** i fewngofnodi i'ch cyfrif neu i greu cyfrif newydd. O'r fan hon, byddwch yn gallu cofrestru ar gyfer y gwasanaeth.

## Pa bryd fydd y casgliad yn dechrau?

Bydd casgliadau AHP yn dechrau ddydd Llun 2il Medi 2019. Yn dibynnu ar ble rydych yn byw, bydd eich casgliad cyntaf yn ystod yr wythnos yn dechrau 2il o Fedi neu'r wythnos ganlynol.



**Os defnyddiwch ein gwasanaeth casglu, gallwn ailgylchu eich gwastraff AHP.**



 **01437 764551**  **[www.sir-benfro.gov.uk/newidiadau-gwastraff](http://www.sir-benfro.gov.uk/newidiadau-gwastraff)**



**Sir Benfro yn ailgylchu  
Pembrokeshire recycles**


# Sut fydd y casgliad yn gweithio?

Wedi i chi gofrestru, byddwn yn rhoi rholiau o sachau 60 litr porffor i chi ar gyfer gwastraff AHP yn unig, ynghyd â chalendr o'r dyddiadau casglu bob pythefnos.

Dylech gyflwyno eich gwastraff ar ymyl y ffordd ar eich diwrnod casglu yn y bagiau AHP porffor rydym yn eu darparu, nid mewn bagiau duon neu fagiau eraill. Os dymunwch, cewch roi'r sach AHP mewn bin neu gynhwysydd arall.

**Bydd cwsmeriaid cofrestredig sy'n defnyddio'r gwasanaeth i gael gwared ag unrhyw beth heblaw ei bwrpas bwriadedig yn colli'r gwasanaeth.**

**Wedi i chi gofrestru, byddwn yn rhoi rholiau o sachau 60 litr porffor i chi ar gyfer gwastraff AHP yn unig.**



## Beth fydd yn cael ei gasglu?

Caiff y deunyddiau canlynol eu casglu i'w hailgylchu trwy'r casgliadau AHP bob pythefnos:

- ✓ Cewynnau a sachau cewynnau
  - ✓ Gwastraff nwyddau anymataliaeth fel padiau leinio
  - ✓ Weips a hancesi papur
  - ✓ Padiau gwelyau a chadeiriau
  - ✓ Menig plastig a ffedogau untro
  - ✓ Bagiau colostomi/stoma
- ✗ Nid yw'r gwasanaeth hwn ar gyfer gwastraff hylendid neu nwyddau hylendid benywaidd a dylid cael gwared â'r rhain yn eich bagiau**



Ceir mwy o wybodaeth yma

 [www.sir-benfro.gov.uk/newidiadau-gwastraff](http://www.sir-benfro.gov.uk/newidiadau-gwastraff)  01437 764551



Sir Benfro yn ailgylchu  
Pembrokeshire recycles